
221



I Catherine ac Emyr
ar achlysur eu priodas, Rhag. 26ain 1957.

Dan hud serch dau enaid sydd – yn uno
Yng ngwanwyn llawenydd;
Heulwen deg a lonno'u dydd,
Hedd cariad fyddo'u ceyrydd.

Da yw dydd rhodio deuddyn – i fro wen
Cyfrinach y rhwymyn;
A gwawried arnynt wedyn
Oriau gwell yfory gwyn.

Heb awel lem a heb loes, – heb ei boen
Y bo byw hyd henoes;
Dyddiau hir a dedwydd oes
Fo'u rhan hyd yrfa'r einioes.

Lliw Ebrill fo i'ch llwybrau, – a heulwen
Ddi-alar fo'ch dyddiau;
A thirion hirion oriau
Yn haf teg ar fywyd dau.


Boed eich byd o hyd yn hedd – a'ch uniad
Uwch anair i'r diwedd;
Oedfa wiw i chwi hyd fedd,
A rhodio mewn anrhydedd.

Geneth decaf Cwmafan – a'i denodd
Â'i doniau ei hunan;
A cheinaf degwch anian
Yw mab a merch ymhob man.

Yn ieuanc ac yn newydd, – yn ei gwisg
Mae hi'n fain ysblennydd;
A hardd iawn ydyw ar ddydd
Ei phriodas â'i phrydydd.

Haf o iechyd fo ichwi, – hedd a hoen
Diddanwch yn gwmni;
Boed eich hynt a'ch bywyd chwi
Yn beraidd yn y Barri. J.M.E.

222



221. Cadwyn o englynion a luniodd ar achlysur priodas ei fab Emyr â Catherine, brodor o Gwmafan, 26 Rhagfyr, 1957. Fel y mae'r arfer ymhlith beirdd Cymru, fe luniodd gerddi yn ystod ei oes i sawl aelod o'i deulu, i gyfeillion ac i bobl a edmygai.

222. Bu Gwilym R. Jones yn gyfaill mawr i'r bardd trwy'r blynyddoedd y bu'n cyfrannu erthyglau a cherddi i'r *Faner*. Câi Gwilym R. groeso mawreddog yn Clement Place, Y Barri.